Llantwit Major School
Ysgol Llanilltud Fawr

# Disgrifiad Swydd

**Teitl y Swydd:** **Pennaeth**
**Ystod cyflog:** **L29 - L35 (£89,714 - £102,896)**

**Diben y Swydd**

- Arwain, dan gyfarwyddyd cyffredinol y Corff Llywodraethu:
    - o ran pennu nodau ac amcanion yr ysgol a sicrhau y cedwir polisïau priodol i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;
    - bod yn gyfrifol am y safonau a'r cwricwlwm ar gyfer pob disgybl gan gynnwys monitro cynnydd o ran cyflawni; a
    - rheoli staff ac adnoddau mewn modd rhagweithiol.

- Cyflawni dyletswyddau proffesiynol athro yn ôl y gofyn.
- Bod yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant pan fo'n briodol.
- Bod yn gyfrifol am hyrwyddo a diogelu lles plant a phobl ifanc yn yr ysgol.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwneud yn unol â:

- dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol;
- darpariaethau'r Deddfau Addysg ac unrhyw orchmynion a rheoliadau sy'n berthnasol oddi tanynt;
- Offeryn Llywodraethu'r ysgol;
- unrhyw gynllun a baratowyd gan yr Awdurdod Lleol dan Adran 48 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion (1998);
- telerau'r contract cyflogaeth;
- Unrhyw reolau, rheoliadau neu bolisïau a osodir gan yr Awdurdod Lleol parthed unrhyw faterion y mae gan y Corff Llywodraethu gyfrifoldeb amdanynt, sy'n deillio o unrhyw un o'r ffynonellau a nodwyd uchod; ac
- unrhyw reolau, rheoliadau neu bolisïau a osodir gan yr Awdurdod Lleol parthed materion nad oes gan y Corff Llywodraethu gyfrifoldeb drostynt.

**Dyletswyddau a Chyfrifoldebau**

1. **Llunio'r dyfodol – Cyfeiriad a Datblygu Strategol**

    a) gweithio gyda llywodraethwyr i ddatblygu'r weledigaeth strategol ar gyfer yr ysgol a sicrhau y mynegir y weledigaeth yn glir, a'i rhannu, a'i deall a bod y staff i gyd yn gweithredu arni'n effeithiol;
    b) ysgogi staff i greu diwylliant dysgu a rennir a hinsawdd gadarnhaol drwy gyflawni arweinyddiaeth drwy dimau ac unigolion;
    c) datblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol i gefnogi'r weledigaeth strategol a fydd hefyd yn hyrwyddo ac yn cynnal gwelliant yn yr ysgol;
    d) Cyflawni Cynllun Gwella'r Ysgol;
    e) defnyddio a dosbarthu adnoddau ac arbenigedd yn y modd mwyaf effeithiol yn yr ysgol ac er mwyn codi cyflawniadau;
    f) sicrhau creadigrwydd ac arloesed wrth ddefnyddio technolegau cyfredol a datblygol priodol i gyflawni rhagoriaeth ar draws yr ysgol;
    g) cyflwyno arloesi priodol yn unol â datblygiadau addysgol ac arfer rheoli gorau mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym; a
    h) chynnal y trefniadau pontio cadarnhaol iawn gydag ysgolion bwydo yn y dalgylch.

2. **Arwain ar Addysgu a Dysgu/Deilliannau a Safonau**

    a) arwain a rheoli'r addysgu a'r dysgu drwy'r ysgol gyfan;
    b) sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosibl i bob disgybl gan ganolbwyntio'n gyson ac yn barhaus ar gyrhaeddiad disgyblion, defnyddio data a meincnodi i fonitro cynnydd yn nysg pob plentyn;
    c) sefydlu dulliau creadigol, ymatebol ac effeithiol o ddysgu ac addysgu;
    d) gosod disgwyliadau uchel a gosod targedau ymestynnol ar gyfer cymuned yr ysgol;
    e) monitro, gwerthuso ac adolygu arferion yr ysgol a hyrwyddo strategaethau gwella;
    f) mynd i'r afael â thanberfformio ar bob lefel;
    g) sicrhau bod addysgu o ansawdd uchel wrth wraidd cynllunio strategol a rheoli adnoddau;
    h) monitro a gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r safonau dysgu a chyflawni;
    i) Sefydlu dulliau addysgu a dysgu creadigol, ymatebol ac effeithiol a chyfrannu at ddatblygu arfer da a rennir yn gydweithredol a gwella'r profiad dysgu i ddisgyblion;
    j) Grymuso disgyblion i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain ac i gymryd cyfrifoldeb personol dros wella eu cyfleoedd ar gyfer profiad addysgol yn y dyfodol;
    k) gweithredu strategaethau sy'n sicrhau safonau uchel o ymddygiad a phresenoldeb;
    l) pennu, trefnu a gweithredu cwricwlwm amrywiol, hyblyg a fframweithiau asesu effeithiol;
    m) parhau i hyrwyddo diwylliant sy'n annog dyhead yng nghymunedau ysgol ac sy'n dathlu llwyddiant a chyflawniad;
    n) mynd i'r afael â thanberfformio ar bob lefel a sicrhau camau cywirol, cymorth ac adolygu effeithiol; a

o) chynnal y bartneriaeth effeithiol gyda rhieni a'r gymuned ehangach i gefnogi a gwella cyflawniad a datblygiad personol y disgyblion.

**3. Datblygu eich Hunan a Gweithio Gydag Eraill**

a) cynnal strategaethau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sefydlu staff, datblygu proffesiynol a rheoli perfformiad yn unol â pholisi a gweithdrefnau lleol a chenedlaethol y cytunwyd arnynt;
b) Cynnal diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar gyfer eich hunan ac eraill a chymryd camau priodol pan fo angen;
c) sicrhau cynllunio, dyrannu, cefnogi a gwerthuso gwaith timau ac unigolion yn effeithiol, gan sicrhau bod tasgau a chyfrifoldebau'n cael eu dirprwyo'n glir;
d) adolygu arferion personol yn rheolaidd, gosod targedau personol a chymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad personol eich hun;
e) trin pobl yn deg, yn gydradd a chydag urddas a pharch i greu a chynnal diwylliant cadarnhaol;
f) cynnal diwylliant dysgu cydweithredol yn yr ysgol a meithrin cysylltiad ag ysgolion eraill er mwyn adeiladu cymunedau dysgu effeithiol;
g) sicrhau darpariaeth ddigonol o adnoddau i alluogi cydbwysedd priodol rhwng bywyd a gwaith i bawb; a
h) rheoli'r trefniant ar gyfer cysylltu arfarnu â datblygiad cyflog a chynghori'r corff perthnasol ar yr argymhellion cyflog i athrawon.

**4. Rheoli’r Sefydliad**

a) sicrhau datblygiad parhaus ar gyfer y strwythurau sefydliadol sy'n adlewyrchu gwerthoedd yr ysgol ac sy'n galluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon;
b) cynhyrchu a gweithredu cynlluniau a pholisïau gwella sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer datblygiad parhaus yr ysgol;
c) rheoli’n effeithiol ac yn strategol adnoddau dynol, ariannol a chorfforol yr ysgol;
d) recriwtio, cadw a dyrannu staff yn briodol;
e) rheoli'r gwaith o osod targedau rheoli perfformiad blynyddol ar gyfer staff ac adolygu cynnydd yn eu herbyn yn unol â pholisi a gweithdrefnau cytunedig;
f) sicrhau bod y defnydd o adnoddau yn rhoi gwerth am arian; a
g) hyrwyddo a datblygu diwylliant o arferion gweithio diogel er mwyn sicrhau bod staff a disgyblion yn cael eu cefnogi, eu bod yn hapus ac yn ddiogel.

**5. Sicrhau Atebolrwydd**

a) hyrwyddo ethos sy'n galluogi pawb i weithio ar y cyd;
b) sicrhau bod atebolrwydd a chyfrifoldeb personol staff wedi'u diffinio'n glir, eu bod yn cael eu cyfleu, eu deall, eu cytuno a'u cofnodi a'u bod yn destun adolygiad a gwerthusiad cadarn a thrylwyr yn unol â pholisi a gweithdrefnau rheoli perfformiad statudol;
c) gweithio gyda’r corff llywodraethu a’i gynghori a’i gynorthwyo i’w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol;
d) sicrhau bod gan bob plentyn unigol fynediad at addysgu a dysgu o ansawdd uchel; a

e) chyflwyno adroddiad clir, cydlynol a chywir o berfformiad i ystod o gynulleidfaoedd.

## 6. Cryfhau'r Gymuned

a) hyrwyddo strategaethau cadarnhaol ar gyfer herio gwahaniaethu;
b) sicrhau ystod o brofiadau dysgu yn y gymuned;
c) cydweithio ag asiantaethau eraill i sicrhau y bodlonir anghenion disgyblion a'r gymuned;
ch) hyrwyddo cydlyniad cymunedol, gwasanaethau estynedig, a gwaith gyda phartneriaid eraill; a
d) cydweithio ag asiantaethau eraill i ddarparu ymagwedd gyfannol at les staff, myfyrwyr, a'u teuluoedd.

Bydd y pennaeth a benodir yn gweithio yn ôl y dyletswyddau proffesiynol a nodir yn nogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol. Mae'r disgrifiad swydd yn manylu cyfrifoldebau ond nid yw'n cyfeirio at unrhyw flaenoriaethau penodol neu faint o amser dylid ei dreulio yn cyflawni'r dyletswyddau hyn. Nid yw'r disgrifiad swydd hwn yn rhagnodol, nac o reidrwydd yn ddiffiniad cynhwysfawr o'r swydd. Fel y cyfryw, gallai fod yn destun gwelliant, ar ôl ymgynghori, i ddiwallu anghenion cyfnewidiol yr ysgol.